




Cymydau Llŷn - Gweinyddiaeth y Canol Oesoedd

Yn ystod yr Oesoedd Canol roedd Gwynedd wedi'i rhannu'n weinyddol yn gantrefi, a Llŷn yn un ohonynt.

Yn y 12fed/13egG yn ystod teyrnasiad Gruffudd ap Cynan ac Owain Gwynedd cafodd y cantref ei rannu yn dri cwmwd:

Nefyn oedd maerdref cwmwd *Dinllaen* ac yma roedd llŷs y tywysog. I'w lys yn y faerdref y deuai'r tywysog yn ei dro ac yma câi'r rhenti a'r tollau eu talu mewn arian neu trwy lafur – cario neu atgyweirio. 'Dynthlayn' oedd yr enw yn nechrau'r 13egG, sef 'dinas' (caer) + 'Llaen' (enw personol Gwyddelig) gan gyfeirio at y gaer arfordirol ar benrhyn Porthdinllaen (SH 275416).

Mae Dinllaen yn cynnwys plwyfi Pistyll, Nefyn, Edern, Ceidio, Tudweiliog, Llaniestyn, Llandudwen, Boduan a Llannor.

Cymydmaen ym mhen eithaf y penrhyn yn cynnwys plwyfi Penllech, Llangwennadl, Bryncroes, Llandygwning, Llanengan, Y Rhiw, Llanfaelrhys ac Aberdaron. Ar yr allt fôr yn Uwchmynydd mae Maen Melyn Llŷn (SH 139252) roddodd ei enw i'r cwmwd ac yn Neigwl roedd y faerdref – y pencadlys gweinyddol.

Yn Deneio, Pwllheli heddiw, roedd maerdref **Cafflogion** Afloegion (Cafflogion) ac mae enwau fel Henllŷs a Gadlys yn awgrymu cysylltiad. Roedd y cwmwd ar ochr ddwyreiniol Llŷn ac yn cynnwys plwyfi Carnguwch, Deneio, Llanfihangel Bachellaeth, Penrhos, Botwnnog, Mellteyrn, Llanbedrog a Llangian.

Afloeg un o feibion Cunedda o'r Hen Ogledd a thad i Eternus, nawddsant Edern, sefydlodd y cwmwd.

Roedd cant *tref* (sef fferm unigol), mewn cantref ac roedd enwau fel Hendrefor a Llawr y Dref. Trigai'r Cymro bonheddig yn ei dref ei hun yn un pen i'r stad, sef pentref a rhoi inni'r enw Cefn *Pentref*, a Phentref ym Motwnnog.

Roedd daliad o dir wedi'i etifeddu'n cael ei alw'n *gafael* a rhoi i ni Gyfelan yn Llangwennadl.

Er bod Cymru dan reolaeth coron Lloegr yn dilyn goresgyniad Edward I parhaodd â'r drefn weinyddol Gymreig am beth amser. Ond daeth Llŷn i gael ei weinyddu fel rhan o Sir Gaernarfon a buan y daeth Nefyn a Phwllheli i fodolaeth.



Nefyn yn y Canol Oesoedd



Y cyfeiriad cyntaf a gawn at Nefyn ydi i Gruffudd ap Cynan ddod â'i gwch i draeth Nefyn yn ddiweddar yn yr 11fedG. Roedd castell mwnt a beili yma yng nghyffiniau Tŵr Pen y Bryn a mwy na thebyg bod yma dreflan eithaf pwysig.

Yng ngwanwyn 1188 treuliodd Gerallt Gymro noson yn y mynachdy. Gydag ef roedd Archesgob Baldwin o Gaergaint yn ceisio ennyn cefnogaeth y Cymry i'r Trydydd Croesgad ac i bwysleisio bod y cadeirlannau dan ei awdurdod.

Yn dilyn ei fuddugoliaeth fel Brenin Lloegr, aeth Edward I ar daith yn 1284 i geisio dangos ei awdurdod dros Gymru. Cynhaliodd Dwrneimant brenhinol yn Nefyn ac mae amryw o enwau lleoedd yn gysylltiedig â hynny.

55 o breswylwyr oedd yn Nefyn pryd hynny ond bu cynnydd yn ystod y ddegawd wedyn. Yn 1279 mae'r canlynol wedi'u rhestru yn y Cyfrif Trethi:

Einion ap Addah – 9 ychen, 6 buwch, 20 dafad, 3 heffer, 3 rhwyd bysgota

Ieuan ap Madoc – 4 ychen, buwch, dafad, heffer, cwch a 4 rhwyd

Llywarth Crun – 1 fowch, 1 rhwyd

Bleddyn Fychan – 6 ychen, 3 buwch, 2 geffyl, cwch bychan a 3 rhwyd

Tangwystl, gwraig Addah – 2 fowch, ceffyl, heffer (3 oed), ac 1 rhwyd


Dai Bach – 2 ddafad, heffer, 2 rwyd

Mae cyfeiriad answyddogol pryd hynny at y dreflan fel 'Bwrdeistref Nefyn' ond bu'n rhaid aros tan 1355 cyn y cafodd siarter gan Y Tywysog Du.

Câi Nefyn bellach ei chyfrif yn dref Seisnig a buan y dioddefodd yng Ngwrthryfel Owain Glyndŵr.

O ganlyniad i dderbyn y siarter a chael ei chydabod fel tref, er ei golli wedyn, cafodd Ymddiriedolaeth Tref Nefyn ei sefydlu sy'n parhau'n weithredol. Does neb y meiddio cyfeirio at Nefyn fel pentref bellach!

Y Mynachdy a Gerallt Gymro



Yn agos i'r Amgueddfa Forwrol mae Stryd y Mynach a Bryn Mynach sy'n awgrymu'n gryf mai dyma leoliad mynachdy Nefyn. Dyma'r fynachlog dan sylw yn nofel Elizabeth Watkin Jones *Plant y Mynachdy*.

Yng nghanol y 12fedG cyflwynodd Cadwaladr ap Gruffudd ap Cynan eglwys Nefyn, y tir rhwng dwy afon lle'r oedd yr eglwys, ynghyd â thir ar lethr de-ddwyrain Mynydd Nefyn, i fyneich Abaty Haughmond, ger Amwythig.

Derbyniodd yr Awstiniad roddion pellach gan Dafydd ap Owain yn 1177 a 1190 a gan Llewelyn ap Iorwerth yn 1230.

Urdd Awstinaidd oedd hon a thua'r un cyfnod ymunodd myneich Enlli, Aberdaron, Ynys Tudwal a Beddgelert â hi.

Yn y mynachdy mae'n debyg y treuliodd Gerallt Gymro a'r Archesgob Baldwin Noswyl Sul y Blodau 1188 pan oeddent ar eu taith trwy Gymru.

Ychydig iawn mae Gerallt yn sôn am Nefyn; cyfeiriad yn unig bod yr Archddiacon wedi darganfod 'Merlin Sylvestris' yno – dogfen sy'n cyfeirio at Fyrrddin Wyllt, un o dri phrif fardd Ynys Prydain, o'r 6edG.

Pregethodd yr Archesgob ar fore Sul y Blodau cyn mynd dros yr Eifl, ac ymlaen am Gaernarfon a Bangor.

Yn Nefyn y clywodd am Ynys Enlli, dysgu am fyneich yr abaty a hirhoedledd y trigolion, a deall mai yno y cafodd Deiniol, Esgob Bangor ei gladdu.



Y Twrneimant



Llys y Tywysogion Cymreig yn Nefyn oedd canolfan weinyddol cwmwd Dinllaen. Ni wyddom am leoliad y plasdy ond mae yno Stryd y Plas a gwyddom ei fod yn dŷ deulawr. Yma arhosodd Edward I a'i osgordd pan ymwelodd â Llŷn yn 1284 a bu'n rhaid cynyddu maint y poptai ar ei gyfer.

Dathlodd Edward ei fuddugoliaeth dros y Cymry yn dilyn llofruddiaeth Llewelyn ap Gruffudd yn 1282 trwy gynnal twrneimant yn Nefyn.

Yn *Brut y Tywysogion* cawn y geiriau 'y peris gwneythur torneymant en nefyn en llyn'.

Daeth dilynwyr, barwniaid a milwyr Edward, a hefyd llawer iawn o wŷr bonheddig dros y môr i Nefyn i ddathlu ei fuddugoliaeth. Roedd paratodau helaeth a chostus ar gyfer y dathlu.

Traddodiad Ffrengig oedd i'r twrneimant, a hwnnw'n llawn rhialtwch a chwaraeon milwrol. Erbyn ail hanner y 13eddG. roedd y milwyr a'u ceffylau yn gwisgo gwisg o ddur.

Onid roedd traddodiadau poblogaidd Arthuraidd y Ford Gron yn y dathlu. Ymgais gan Edward I oedd hyn i uniaethu ei hun â'r Cymry.

Dywed Yr Athro Bedwyr Lewis Jones

'Bellach ymryson rhwng unigolion a hynny yng ngŵydd cynulleidfya ydoedd, yn lle ymryson rhwng dwy blaid yn diweddu'n ysgarmes afreolus wyllt. Byddai, boneddigesau bid siŵr, ymhlith yr edrychwyr; ac roedd i wleda a dawnsio le amlwg iawn. Achlysur cymdeithasol ydoedd – Ascot y drydedd ganrif ar ddeg. Sbloit liwgar fel hyn a gynhaliwyd yn Nefyn yn 1284.'

Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon (34) - 1973

Y gred yn lleol ydi mai ar dir Bodtacho Ddu roedd y twrneimant ond rhaid cofio bod Cae Iorwerth yng nghyffiniau Nefyn a Chae Ymryson (Mapiau Degwm 1839) yng nghanol plwyf Ceidio. Mae'n bur debyg mai yng nghyffiniau'r plas roedd y lleoliad, o dan y Fron wrth odre Garn Boduan.

Siarter Nefyn



Cafodd Edward, y Tywysog Du, yr hawl i weinyddu o Gaernafon ac yn 1349 fe roddodd Nefyn yn 'anrheg' i Syr Nigel Loryng – un o'i brif weision. Chwe blynedd yn ddiweddarach rhoddodd statws bwrdeistref i Nefyn. Roedd y gymuned yn awyddus i hyn ddigwydd ac yn fodlon talu £36 am y fraint. Bellach caent gynnal dwy ffair flynyddol ar Ddyrchafael a Sulgwyn. Câi'r tyddynwyr o fewn Nefyn eu trin yn y dull Seisnig a'r Brenin neu ei gynrychiolwyr oedd yn arglwyddiaethu.

Parhaodd statws bwrdeistref Nefyn tan iddynt ei golli yn 1882.

Gwrthryfel Owain Glyndŵr



Cafodd Owain Glyndŵr ei gynhyrfu wrth weld mor deyrngar oedd trigolion Nefyn i Frenin Lloegr. Roeddent




hefyd yn derbyn eu bod yn cael eu gweinyddu gan bobl estron er bod hynny wedi'i orfodi arnynt, fel mewn trefi eraill tebyg.

Yn 1400 ymosododd gwŷr Owain ar Nefyn, llosgi'r dref yn llwyr ac erlid y trigolion ymaith. Yn wir dair blynedd ar ddeg yn ddiweddarach roedd y dref yn dal yn llanast ac nid oedd neb bellach yn casglu unrhyw renti hyd yn oed.

Ni chafodd economi Nefyn ei hadfer.

Derbyniodd Pwllheli driniaeth gyffelyb.

Ymddiriedolaeth Tref Nefyn



Ar Ffynnon Fair, Nefyn

Parhaodd statws bwrdeistrefol Nefyn tan ei golli yn 1882. Er hyn parhaodd yn rhan o Etholaeth Bwrdeistrefol Sir Gaernarfon, a fyddai ynghyd â threfi Phwllheli, Caernarfon, Bangor, Conwy a Chrichieth yn ethol Aelod Seneddol i Lundain.

Roedd gan Nefyn ei Ymddiriedolaeth Tref hefyd ac roedd yn berchen ar dai a thir. Mae'n gyfrifol am warchod Ffynnon Fair yn Stryd y Ffynnon a Thŵr Pen y Bryn. Gall rannu ei harian ymysg y gymuned ar ôl cyflawni ei dyletswyddau.

Gefeillio Puerto Madryn a Nefyn



Roedd amgylchiadau byw yng Nghymru yn ddifrifol yn hanner cyntaf y 19egG felly cafodd mudiad ei greu i sefydlu Gwladfa Gymreig. Roedd hi'n bosibl gweud hynny yn yr Ariannin ac aeth dirprwyaeth drosodd i drafod gyda'r awdurdodau.

Daeth Thomas Love Duncombe Jones Parry, Madryn yn ymddiriedolwr yn y mudiad. Roedd yn berson profiadol – yn Aelod Seneddol ac yn hen gyfarwydd â throi ymhlith arweinwyr gwledydd yn y clybiau yn Llundain. Gydag ef yr aeth Lewis Jones, ymfudwr brwd ond Jones Parry wnaeth y bargeinio.

Wedi'r trafodaethau yn Buenos Aires yn 1863 cawsant ganiatâd i ymweld â Phatagonia i archwilio'r tir ar lannau'r afon Chubut. Bu'r daith yno'n un helbulus; wedi llogi sgwner fregus bu'n rhaid bodloni ar griw o garcharorion i'w hwylio. Roedd yn stormus wrth lanio mewn bae yn agos i ble glaniodd y fintai gyntaf o ymfudwyr ddwy flynedd yn ddiweddarach.

Buont yn archwilio peth o'r wlad a chawsant eu bodloni. Gwnaethant gytundeb a dychwelodd y ddau adref gydag adroddiad ffafriol ar y wlad.

Yn fuan daeth y fintai gyntaf at ei gilydd yn barod i ymfudo i'r Wladfa Gymreig gan hwylio o Lerpwl ar y 'Mimosa' a glanio yn eu gwlad newydd ar 28 Gorffennaf 1865. Galwon nhw'r man lle glanion nhw yn Borth Madryn, Puerto Madryn yn Sbaeneg.

Cafodd ei enwi felly fel teyrnged i Jones Parry, oherwydd ei gefnogaeth i'r fenter a'i fod ef wedi nodd i ymweliad y dirprwywyr.



Cynyddodd poblogaeth Nefyn ers hynny i fod yn 2,500 ond datblygodd Puerto Madryn yn borthladd prysur gyda dros 60,000 o drigolion.

Stad Madryn oedd prif dirfeddianwyr Nefyn a dyma'r dref agosaf at gartref y teulu. Digon naturiol felly i Nefyn efeillio â Puerto Madryn er bod poblogaeth y ddinas honno bellach gymaint yn fwy na Nefyn.

Masnachu yn Llŷn



Y trên a'r bysus wedi cyrraedd Pen Cob Pwllheli

Cyn i'r ffordd dyrpeg o Borthdinllaen i Foduan a'r ffordd sy'n fforchio i Bwllheli ac i gyfeiriad Porthmadog gael eu hadeiladu yn nechrau'r 19edG roedd teithio ar y tir yn orchwyl anodd iawn. Cafodd y ffordd dyrpeg o Lanbedrog i Bwllheli ei hadeiladu yn 1824.

Llwybrau troed a lonydd i drol a mul yn unig fyddai yn Llŷn er doedd fawr o angen crwydro ymhell gan fod ffeiriau yn Aberdaron, Sarn, Nefyn a Phwllheli. Yno câi cynnyrch y fferm eu gwerthu, câi gweision a morynion eu cyflogi a byddai'r stondinau llestri a fferins ffair yn boblogaidd.

Roedd galw am wartheg Llŷn a chrwydrai'r porthmyn ymhell i'r marchnadoedd mawrion gan ddilyn ffyrdd y porthmyn. Câi anifeiliaid Llŷn eu casglu yn Sarn Mellteyrn, Botwnnog, neu yn Llanengan a Llangian a'u cerdded trwy Rydyclafdy ac Efailnewydd i'r Ffôr gan osgoi corsdir Pwllheli. Byddent yn cyfarfod eraill yn dod o gyfeiriad Nefyn. Yn Efailnewydd câi'r gwartheg eu pedoli ar gyfer eu cerdded ar ffyrdd caletach.

Llawer hwylusach yn aml fyddai cludiant ar y môr. Byddai trigolion Enlli yn fwy cyfarwydd yn aml â dinas Lerpwl na rhai o ardaloedd cyfagos Llŷn. Mae sôn am ferch ifanc o Uwchmynydd yn casglu wyau o gwmpas yr ardal ac yn mynd â hwy ar slŵp o Aberdaron i'w gwerthu yn Lerpwl.

Deuai'r llongau masnach mwyaf i borthladd Pwllheli, prif borthladd arfordir de Llŷn. Datblygodd harbwr Porthdinllaen ar arfordir y gogledd. Gallai llongau glo a chalch ddadlwytho ar y traeth fel ar draethau eraill. Yno byddai'r masnachwyr, y cariwyr a'r ffermwyr lleol yn aros amdanynt.

Ond roedd prysurdeb yn y porthladdoedd bach hefyd, e.e. ym Mhorth Ysgaden, Porth Colmon, Porth Ferin.



Dilyn y Stori

Darganfyddwch fwy am orffennol diwydiannol yr ardal drwy ymweld â Phorthdinllaen - Unwaith yn leoliad i un o'r porthladdoedd prysuraf yn Llŷn bellach yn bentref sydd o fewn perchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.